## YR ATODLEN

## TANWYDDAU AWDURDODEDIG

**38.** Supacite briquettes, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

(a) sy'n cynnwys gronynnau glo caled (sef rhyw 84 y cant o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef rhyw 12 y cant o'r cyfanswm pwysau) a starts yn rhwymwr (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thriniaeth wres ar ryw 240°C;

(c) sy'n ofoidau heb eu marcio ac sy'n pwyso 45 gram ar gyfartaledd; ac

(ch) nad ydynt yn cynnwys mwy na 2 y cant o sylffwr o'r cyfanswm pwysau.